# Rhaglen Stondin Prifysgol Aberystwyth

Eisteddfod Genedlaethol – Wrecsam 2025



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

THE TIMES
THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2024
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

119498 - 21.07.25

# **Dydd Llun,** Awst 4

13:00 - 14:00

## Sesiwn Banel Mentera: Buddion Astudio Modiwlau Arweinyddiaeth

Bydd y sesiwn yma yn cael ei gadeirio gan Llŷr Roberts (Prif Weithredwr, Mentera) ac yn gyfle i glywed profiadau unigolion sydd wedi astudio modiwlau ôl-radd ar Lefel 7 a gaiff ei redeg ar y cyd rhwng Mentera ac Ysgol Fusnes Aberystwyth. Ers ei sefydlu yn 2015, mae ymhell dros 100 o unigolion wedi elwa o'r bartneriaeth hyd at heddiw, gan ddysgu sgiliau proffesiynol mewn meysydd megis 'Hwyluso ar gyfer Arwain Sefydliad', 'Hyfforddi a Mentora ar gyfer Arweinwyr' ac 'Arwain Newid'.

15:00 - 16:45

## Arloesi ar gyfer dyfodol Cymru Wledig

**Dewch i glywed sut mae Labordai Arloesedd yn ymateb i heriau yng Nghymru Wledig, a chymryd rhan yn ein hymdrech i adeiladu 'weledigaeth y dyfodol' gyda'n gilydd.**

Bydd y gweithdai 45 munud yn egluro beth yw Labordy Arloesedd a sut rydym wedi bod yn dod â phobl ynghyd ledled Cymru o dan faner Cymru Wledig LPIP Rural Wales. Bydd cyfle i weld ein gwaith a chymryd rhan mewn adeiladu 'weledigaeth y dyfodol'.

Ar ôl cyflwyniad byr, bydd y gweithdy yn anffurfiol, gyda chyfle i gymdeithasu, siarad, bod yn greadigol a mwynhau paned.

**Cynhelir gan:** Canolfan y Dechnoleg Amgen a Cymru Wledig LPIP Rural Wales

Dewch am groeso cynnes, cyflwyniad byr, gweithgareddau creadigol, a paned.

**A oes gennych atgofion, straeon, neu luniau am dywydd eisteddfodol ddoe a heddiw?**

Dewch i'r stondin i weld sut allwch chi gyfrannu at brosiect 'Tywydd Eisteddfodol'!

## **Dydd Mawrth,** Awst 5

15:00 - 16:30

### Pŵer cymunedol yn weithredol - dysgu o ymchwil gymunedol

**"Nôd y syniad o bŵer cymunedol yw'r greddf bod pobl yn haeddu cael dweud am y llefydd maent yn byw ynddynt a'r gwasanaethau maent yn defnyddio."**

Sgwrs am bŵer cymunedol - a sut mae cymunedau eu hunain yn arwain ymchwil i ffurfio dyfodol tegach, gwyrddach.

Yn cydweithio gyda Cymru Wledig LPIP Rural Wales, mae cymunedau ledled y wlad yn archwilio beth sy'n bwysig iddynt, yn gofyn cwestiynau, yn casglu tystiolaeth, ac yn gorfodi newid.

Bydd y gweithdy anffurfiol hwn ar agor i bawb. Mae'n dod â phobl sy'n cymryd rhan mewn ymchwil gweithredu cymunedol - ac y rhai sy'n chwilfrydig amdano - at eu gilydd i rannu straeon, mewnwelediadau a phosibiliadau.

Beth allwn ni ei ddysgu pan fo cymunedau'n arwain y ffordd? Beth sy'n newid pan fydd gwybodaeth leol yn cael ei chymryd o ddifrif?

Cynhelir y digwyddiad yma gan *Together for Change* a phartneriaid yng Nghymru Wledig LPIP Rural Wales.

### Arddangosfa 'Pop Aber'

Dewch i weld arddangosfa 'Pop Aber' sy'n dathlu'r cyfraniad gwerthfawr i ddiwylliant Cymraeg a wnaed gan rai o'r artistiaid a bandiau Cymraeg a fu'n fyfyrwyr yn y Brifysgol. Mae'r arddangosfa'n cynnwys lluniau ynghyd â chasgliad o bosteri ar gyfer gigiau UMCA dros y blynyddoedd.

POP ABER

# **Dydd Mercher,** Awst 6

10:15-10:45

## Cyfleoedd gwirfoddoli i Gyn-fyfyrwyr efo'r Brifysgol: Ffyrdd y gallwch chi barhau i wneud gwahaniaeth

**Trafodaeth gyda'r Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd LLB**

Sgwrs gydag Elfyn Llwyd i drafod sut y gall Cyn-fyfyrwyr wirfoddoli eu hamser i'r brifysgol trwy'r **Rhaglen Wirfoddoli Cyn-fyfyrwyr (RhWC)** newydd (**www.aber.ac.uk/cy/development/support/aon**).

P'un ag oes gennych ddiddordeb mewn cefnogi myfyrwyr trwy fentora, trwy ddarparu cyflwyniad/gweithdy neu hyrwyddo'r Brifysgol trwy ddarparu proffiliau i ni eu defnyddio fel deunyddiau marchnata, mae digon o gyfleoedd i gymryd rhan.

11:00 – 11:30

## Dros Dro: Miwsig a'r Meddwl

Ymunwch gyda'r band Dros Dro am gân a sgwrs mewn digwyddiad mewn partneriaeth â **myf.cymru**. Yn ogystal â rhoi blas ar eu profiadau yn ennill cystadleuaeth Cân i Gymru 2025 a'r Ŵyl Ban Geltaidd, bydd y band yn sgwrsio am sut mae cerddoriaeth wedi bod o gymorth i'r meddwl ar hyd y daith ac yn chwarae rhai o'u caneuon, yn hen a newydd, ar hyd y sesiwn.

12:00 – 13:00

## Atgof 'Atgof' Prosser Rhys: sgwrs rhwng Iestyn Tyne a Mererid Hopwood

Dros ganrif ar ôl i Prosser Rhys ennill y Goron gyda'i bryddest arloesol ym Mhrifwyl Pont-y-pŵl yn 1924, dyma gyfle i glywed Mererid Hopwood, Athro yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Aberystwyth, yn holi un o gyn-fyfyrwyr yr Adran, y llenor amryddawn, Iestyn Tyne, am ei gyfrol newydd Y Cyfan a Fu Rhyngom Ni: Ar Lwybrau 'Atgof' Prosser Rhys.

Ymunwch â ni ar stondin Prifysgol Prifysgol Aberystwyth ym mlwyddyn dathlu 150 Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd y Brifysgol.

14:00-15:00

## Derbyniad i Gyn-fyfyrwyr

Ymunwch gyda ni yn y prynhawn am gyfle i ddal i fyny gyda cyn-fyfyrwyr eraill o Aber am sgwrs dros baned a chacen.

## **Dydd Iau,** Awst 7

11:00 – 12:00

### Trafodaeth Banel: Datganoli Darlledu yng Nghymru

**Yr Athro Jamie Medhurst** (Prifysgol Aberystwyth/Cadeirydd)
**Dr Aled Eirug** (Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru, Ofcom)
**Llyr Morus** (Cadeirydd Teledwyr Annibynnol Cymru)
**Owain Meirion** (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg)
**Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones** (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant)

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi derbyn grant ymchwil ar gyfer prosiect ar bolisi darlledu o fewn gwledydd datganoledig y DU. Yng Nghymru, mae cryn sylw wedi'i roi i'r pwnc ers nifer o flynyddoedd a gwelwyd adroddiad gan banel o arbenigwyr oedd yn cynnig pum llwybr gwahanol er mwyn ateb galwadau i ddatganoli darlledu, yn ogystal â argymell sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru. Bellach, mae'r Llywodraeth wedi dweud na fydd Awdurdod yn cael ei greu. Beth, felly, yw'r camau nesaf a pham bod datganoli grymoedd dros ddarlledu yn bwnc trafod yn y lle cyntaf?

13:00 – 14:00

### Cystadleuaeth Taclo'r Termau

Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol.

14:00 – 15:00

### Lansiad 'Ffynnonloyw' gan Moelona

Bydd yr Athro Katie Gramich yn trafod bywyd a gwaith Moelona gan ganolbwyntio ar ei nofel fwyaf arwyddocaol Ffynnonloyw sy'n dilyn hanes teulu tlawd o gefn gwlad gorllewin Cymru drwy dair cenhedlaeth – dyma ddarlun trawiadol o ddatblygiad y genedl a'r Gymraes yn y cyfnod rhwng 1870au a'r 1920au.

15:30 – 16:30

### Sioe Geiriau, Cwmni Mewn Cymeriad

**Awdur: Manon Steffan Ros**
**Comisiynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg**

Yn y sioe hon, mae Alffi, yn defnyddio'r ddwy iaith gyda'i rieni. Mae'n dechrau gweld pa mor berthnasol a phoblogaidd yw cerddoriaeth Gymraeg a sut y gall ddefnyddio'r iaith yn ei fywyd bob dydd. Sioe fywiog a doniol sy'n addas ar gyfer pobl ifanc rhwng 12 ac 18 oed.

## **Dydd Gwener,** Awst 8

11:00 - 12:00

### Beth yw arwyddocâd Y Wladfa heddiw?

Mae'r digwyddiad hwn yn dwyn ynghyd ddau lyfr dylanwadol ar Y Wladfa a gyhoeddwyd eleni gan Wasg Prifysgol Cymru er mwyn cynnal sgwrs am arwyddocâd y wladychfa Gymreig eiconig hon. Mae llyfr Lucy Taylor 'Global Politics of Welsh Patagonia' yn herio naratifau confensiynol am hanes Y Wladfa, tra bod llyfr Lucy Trotter 'The Sound of Welsh Patagonia' yn edrych ar hunaniaeth Gymreig yn Y Wladfa trwy gerddoriaeth, twristiaeth, golygfa a sain. Gyda'i gilydd, byddant yn trafod arwyddocâd Y Wladfa heddiw, yn cwestiynu'r gweledigaethau rhamantus ac ystyried y realiti mwy cymhleth.

15:00 - 16:00

### Paned, Cacen a Chân UMCA

Dewch draw i babell Prifysgol Aberystwyth am baned a chacen am ddim dan ofal Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth. Dyma wahoddiad agored i fyfyrwyr y gorffennol, presennol a'r dyfodol gael ymgynnull a rhannu atgofion dan adloniant Aelwyd Pantycelyn.

### Gweithgareddau yn ystod yr wythnos

- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Tîm Nyrsio
- Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
- Adran Mathemateg
- Adran Y Gyfraith a Throseddeg
- Yr Ysgol Addysg
- Adran Seicoleg
- Adran Ffiseg

A llawer mwy...

/Prif.Aberystwyth

@prifysgol.aberystwyth

/prifysgolAberystwyth

Sganiwch y cod QR yma am ein Rhaglen Eisteddfod Genedlaethol neu ewch i:

aber.ac.uk/cy/eisteddfod